# SWYDD DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD:** | **Rheolwr Cydymffurfio** |
| **ATEBOL I:** | **Pennaeth Gwasanaethau Eiddo** |
| **YN GYFRIFOL AM:** | **Cydlynydd Cydymffurfio, Rheolwyr Gwaith** |
| **ADRAN:** | **Gwasanaethau Eiddo** |
| **CYFLOG (£):** | **Gradd 17** |

**PRIF BWRPAS Y SWYDD**

Byddwch yn ymuno ag Adran Eiddo Adra, yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Eiddo (Asedau) . Mae'r adran yn rheoli holl faterion yn ymwneud ag eiddo gan gynnwys cynllun buddsoddi, trwsio, cynnal a chadw, cydymffurfio, addasiadau, eiddo masnachol, cyfleusterau swyddfa a thir.

Mae adran Eiddo Adra ar hyn o bryd yn gweithio ar strategaeth rheoli Eiddo / Asedau 10-mlynedd uchelgeisiol, newydd i wella a thyfu ein busnes ymhellach. Byddwch yn rhan bwysig o gyflawni'r strategaeth hon, gan dynnu sylw at feysydd i'w gwella ac yn cydweithio ar draws yr adran i gyflawni lefelau uwch o berfformiad ac effeithiolrwydd.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud**

Fel y Rheolwr Cydymffurfio byddwch yn gyfrifol drwy sicrhau:

Mae'r portffolio asedau yn cydymffurfio gyda holl ofynion statudol, rheoleiddio a chorfforaethol i sicrhau bod Adra yn diwallu'r holl ofynion fel landlord.

Bydd deiliad y rôl yn sicrhau bod systemau cydymffurfio a sicrwydd yn cael eu cynnal, gosod rhaglenni arolygu ac archwilio, ac yn gyfrifol am gyflawni rhaglenni o'r fath, monitro technegau a safonau arolygu / archwilio, nodi'r gweithrediadau a godwyd a darparu tystiolaeth eu bod wedi'u cwblhau, rheoli ymgynghorwyr allanol, monitro'r swyddogaeth cydymffurfio yn berthnasol i waith o ran y 7 Mawr, sef meysydd allweddol iechyd a diogelwch y landlord a nodir isod;

1. Rheoli Asbestos
2. Diogelwch Tân
3. Diogelwch Trydanol
4. Diogelwch Gwresogi - Nwy, olew a thanwydd solet
5. Diogelwch Hylendid Dŵr (Legionella)
6. Diogelwch Offer Codi
7. Diogelwch Nwy Radon

Byddwch yn gweithio yn agos gyda Rheolwyr Adra a holl randdeiliaid eraill i sicrhau bod safleoedd a chwsmeriaid yn ddiogel a bod cofnodion cywir yn cael eu cadw.

Byddwch yn arwain tîm sy'n perfformio'n dda, gan ddarparu gwasanaeth gwerth am arian i Adra a chleientiaid allanol.

Byddwch yn adolygu perfformiad yn barhaus ac yn gweithredu'r cynlluniau angenrheidiol wrth i chi ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf.

Cefnogi'r Pennaeth Eiddo a'r Rheolwr Gweithrediadau Masnachol i sefydlu meddylfryd a dull contractwr masnachol o fewn y tîm.

Darparu'r gwasanaeth cwsmer o'r radd flaenaf a sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu byw mewn cartrefi o'r safon gorau posib.

Paratoi dadansoddiad ariannol a chyflawni gwasanaethau o fewn y cyllidebau sydd wedi eu dynodi.

Cydweithio â'r Pennaeth Eiddo a'r Rheolwr Gweithrediadau Masnachol i ddadansoddi costau a chyllidebau a sicrhau bod gwarged a thargedau'n cael eu cyflawni flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Adeiladu a datblygu partneriaethau newydd a phresennol gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwella enw da'r Adran Eiddo ymhellach - o fewn a thu allan i Adra.

Cyfrannu, cwmpasu a chynllunio ar gyfer cyflawni rhannau perthnasol o gynllun twf yr Adran Eiddo (Trwsio).

Dangos sgiliau arwain sy'n gynhwysol ac yn annog eraill, ac yn gallu cyflwyno a rheoli newid mewn ffordd effeithiol

**Beth yr ydym yn chwilio amdano**

- Profiad o gydymffurfio iechyd a diogelwch y landlord yn y sector dai
- Gwybodaeth dechnegol dda o eiddo, adeiladu a'r amgylchedd adeiladu.
- Gwybodaeth helaeth am ddeddfwriaeth, rheoleiddio ac arferion gorau.
- Dealltwriaeth gynhwysfawr a gwybodaeth am systemau TG, gyda phwyslais ar systemau adrodd sydd ei angen i gyflawni canlyniadau perfformiad uchel a thimau.
- Byddwch yn drylwyr gyda gallu naturiol i adnabod meysydd ar gyfer gwella drwy ddadansoddi data crai o ffynonellau amrywiol.
- Bydd gennych hanes o gyflawni prosiectau yn llwyddiannus sydd wedi arwain at welliannau.
- Sgiliau rheoli rhagorol gyda'r gallu i sicrhau perfformiad staff gwych, atebolrwydd a chyfrifoldeb.

| **CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL** |
|---|
| • Darparu gwasanaeth sy'n dangos lefelau uchel o berfformiad, cost-effeithiolrwydd a gwerth i'r sefydliad, gan sicrhau bod targedau corfforaethol a mewnol a mesurau perfformiad yn cael eu cyflawni.<br>• Gweithio gydag Uwch reolwyr yn yr Adran Eiddo i ddatblygu dealltwriaeth o gostau ac allbynnau a chyflawni o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.<br>• Rhan hanfodol o'r cynllunio ar gyfer twf sylweddol mewn ffrydiau gwaith newydd a phresennol, o fewn ac yn allanol i Adra.<br>• Mynychu a chynrychioli'r Adran Eiddo mewn cyfarfodydd trawsadrannol.<br>• Datblygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer gan wneud pethau'n gywir y tro cyntaf<br>• Rheoli a monitro staff a pherfformiad contractwr a chymryd camau i gywiro pan fydd angen.<br>• Cyfrannu at osod cyllideb ac arwain ar ragamcanu, monitro a rheoli costau ar gyfer cyllidebau a ddyrennir.<br>• Caffael deunyddiau a gwasanaethau mewn ffordd fasnachol yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheolaethol y cwmni.<br>• Cynhyrchu adroddiadau clir a chryno i’r cyfarwyddwr cynorthwyol a'r tîm rheoli.<br>• Creu a chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau ac uwch gydweithwyr.<br>• Ymdrechu ar bob cyfle i wella boddhad, codi safonau a lleihau cwynion<br>• Gweithio gyda thîm rheoli Trwsio i ganfod a chyflwyno newidiadau i feysydd sydd angen eu gwella.<br>• Sefydlu a gweithredu cynllun hyfforddi ac olyniaeth glir ar gyfer eich tîm i gefnogi datblygiad a thwf Trwsio.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gydag adrannau a sefydliadau eraill fel bo’r gofyn yn galw<br>• Diweddaru eich hun ar newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn cwrdd â goblygiadau a rhoi arfer da ar waith er mwyn gwella gwasanaethau<br>• Dangos ymrwymiad clir i gyfleoedd cyfartal a gofal cwsmer ochr yn ochr ag arfer da, polisïau a chanllawiau<br>• Arwain eich tîm trwy annog, hyfforddi a gwerthuso a sefydlu'r diwylliant sydd ei angen i lwyddo.<br>• Arddangos a gweithredu Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd (IDA) o safon i amddiffyn staff, cwsmeriaid a darparwyr gwasanaeth.<br>• Bod ar gael fel arweinydd parhad busnes ar gyfer yr adran yn ôl yr angen ar sail rota.<br>• Dirprwyo ar ran Pennaeth Gwasanaethau Eiddo pan fydd gofyn. |

Ni all unrhyw swydd ddisgrifiad ymdrin â bob dim a all godi o fewn y rôl ar adegau amrywiol. Er mwyn cynnal gwasanaeth effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gyflawni unrhyw dasgau rhesymol eraill, sy’n debyg yn fras i’r rhai yn y ddogfen hon fel bydd eich Cyfarwyddwr yn pennu.

| MANYLEB PERSON | HANFODOL/ DYMUNOL |
|---|---|
| **CYMWYSTERAU** | |
| BSc (Anrhydedd) mewn Adeiladu neu gymhwyster neu brofiad cyfatebol. | H |
| Cymwysterau technegol mewn disgyblaeth yn berthnasol i adeiladu/eiddo/cydymffurfio neu hyfforddiant a phrofiad tebyg | H |
| Cymhwyster NEBOSH Tân/Cyffredinol neu gyfatebol | D |
| Aelod siartredig o'r RICS neu CIOB | D |
| Cymhwyster Rheoli | D |
| Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | H |
| **PROFIAD** | |
| Profiad o weithredu mewn swydd debyg mewn sefydliad tai neu sefydliad o faint, cwmpas a chymhlethdod tebyg. | H |
| Profiad sylweddol o arwain a rheoli rolau technegol mewn sefydliad rheoli tai neu eiddo. | H |
| Profiad o gynllunio, monitro a rheoli arian mewn prosiectau mawr. | H |
| Profiad a’r gallu i ddehongli gwybodaeth berthnasol, dadansoddi data a sefyllfaoedd cymhleth, adolygu datrysiadau amgen - a gwneud penderfyniadau deallus a chyflym. | H |
| Profiad o ddatblygu gwasanaethau i gyflawni a chynnal perfformiad ar lefel uchel wrth ddarparu gwasanaethau | H |
| Gallu darparu canlyniadau i amserlenni tynn ac o dan bwysau. | H |
| Profiad o reoli contractau gyda thystiolaeth o weithio ar dendrau cyn ac ar ôl, neu waith prosiect tebyg | H |
| Profiad o baratoi a rheoli cyllidebau ynghyd â rhagweld gwariant | H |
| Profiad helaeth o ddatblygu, gweithredu a chyflwyno dulliau rheoli adrodd / dangosfyrddau a dangosyddion perfformio allweddol | H |
| **GWYBODAETH** | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth berthnasol a safonau fel rheoliadau CDM, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, Rheoliadau Diogelwch Nwy, Rheoliadau Weirio Trydanol, Rheoliadau Rheoli Asbestos | H |
| Gwybodaeth ardderchog am holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn berthnasol i reoli eiddo a phrosiectau adeiladu gan gynnwys nwy, trydanol, tân, rheoli cyfleusterau, asbestos, rheoli lifftiau a leigionella. | H |
| Gallu dangos gwybodaeth sylweddol am gydymffurfio a gofynion sicrwydd yn benodol i feysydd swyddogaeth, gwybodaeth a gafwyd drwy brofiad helaeth a pherthnasol, gan gynnwys gweithredu a rheoli rhaglenni gwaith a chyflenwyr. | H |
| Dangos gwybodaeth fanwl o systemau TG e.e. Keystone, Academy, Task, MIS Active H, Civica, Intelligent Energy, SAVA | H |

| | |
|---|---|
| Gallu gyrru gwelliannau mewn perfformiad gan weithredu o fewn diwylliant o reoli perfformiad a'i hybu. Gallu sefydlu gweithdrefnau a phrosesau er mwyn casglu, adolygu a monitro dangosyddion perfformiad. | H |
| **SGILIAU** | |
| Yn deall TG yn llawn ac yn gallu defnyddio pecynnau Microsoft yn llawn | H |
| Gallu defnyddio systemau cyfrifiadurol i gynnal systemau a chofnodi a chynhyrchu dogfennaeth fel llythyrau, adroddiadau, graffiau, cyflwyniadau ayyb. | H |
| Sgiliau rhyngbersonol da a'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol ar bob lefel. | H |
| Sgiliau datrys problemau cryf | H |
| Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno gwych (llafar ac ysgrifenedig) a'r gallu i adrodd ar lefel strategol. | H |
| Sgiliau cyfathrebu gwych. | H |
| Gallu gweithio o dan bwysau i gyrraedd dyddiadau cau tynn. | H |
| **ARALL** | |
| Tystiolaeth o fod yn llwyddiannus wrth arwain ac ysgogi timau. | H |
| Profiad o reoli perfformiad a sicrhau bod partneriaid Adra yn perfformio o dan fframwaith perfformiad. | H |
| Gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig a llafar mewn ffordd eglur a chryno. | H |
| Sgiliau rhifedd, ysgrifennu a siarad sy'n ddigonol ar gyfer y swydd | H |
| Parodrwydd i weithio tu allan i oriau swyddfa arferol pan fydd gofyn. | H |
| Gallu mynychu cyfarfodydd Adra a sefydliadau preswylwyr. | H |
| Canolbwyntio ar lwyddiant, gosod targedau clir a monitro ac adolygu cynnydd. | H |
| Talu sylw i fanylion a'r gallu i resymoli sefyllfaoedd sy'n ymwneud â data a/neu sefyllfaoedd cymhleth. | H |
| Gallu dehongli gwybodaeth mewn dulliau amrywiol gan gynnwys manylebau, atodlenni a chostau. | H |
| Gweithiwr tîm sy'n gallu adeiladu perthnasau a gweithio'n effeithiol ar draws terfynau a gweithio ag eraill i gael canlyniadau. Rheolwr cyfeillgar gyda sgiliau rhyngbersonol gwych. | H |
| Wedi ymrwymo i welliant parhaus | H |
| Yn meddu ar drwydded yrru lawn | H |
| **IAITH** | |
| Y gallu i gyfathrebu (siarad ac ysgrifennu) yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg | H |